

## POLISI AMDDIFFYFN RHAG YR HAUL

### Cylch Meithrin Y Felinheli

Bydd **Cylch Meithrin Y Felinheli** yn sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn ymwybodol o'r polisi hwn drwy y wybodaeth sydd i'w gael yn y llyfryn rhieni, copi o'r polisi ar gael i'w lawrlwytho oddi ar ein gwefan neu drwy ei ddarllen yn y ffeil bolisiau sydd yn cael ei gadw yn y Caban.

#### NOD

Nod y cylch yw sicrhau y gall y staff a'r plant fwynhau'r haul yn ddiogel. Bydd y cylch yn gweithio gyda'r staff, y gwirfoddolwyr a'r rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid i gyflawni hyn.

#### COD YMARFER

Bydd y cylch yn cyflawni'r canlynol;

#### Amgylchedd

- cynnal asesiad risg o'r man chwarae awyr agored
- sicrhau bod mannau cysgodol ar gyfer y plant a'r staff
- sicrhau cysgod parhaol ble bo'n bosibl trwy blannu coed a llwyni.
- Ble nad yw hynny'n bosibl, mae'r cylch yn sicrhau bod gasibo neu orchudd tebyg ar gael i'w osod yn gyflym.

#### Dillad

- sicrhau bod plant yn gwisgo het haul ac os yn bosibl ddillad sy'n gorchuddio'r croen pan fyddant yn chwarae yn yr awyr agored yn ystod yr haf.
- sicrhau bod staff y cylch yn gwisgo hetiau haul pan fyddant yn yr awyr agored er mwyn hyrwyddo arfer da.

#### Eli Haul

- gofyn caniatâd rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid (**gweler ffurflen EH Atodiad 4**) i'r staff gynorthwyo plant i roi eli haul cyn iddynt fynd allan i chwarae yn yr awyr agored yn ystod yr haf.
- gofyn i rieni ddarparu potel o eli haul sy'n o leiaf ffactor 30+ ac sy'n addas ar gyfer eu plentyn, ac sydd wedi ei labelu'n glir. Os na fydd gan y plentyn eli haul ei hun yna bydd staff y cylch yn darparu eli haul Nivea 30+.

#### Addysg

- cyflwyno negeseuon i'r plant am ddiogelwch yn yr haul trwy stori a gwaith creadigol.
- atgoffa'r holl staff o bwysigrwydd diogelwch yn yr haul yn ystod tymor y gwanwyn yn flynyddol.